

CADFAN (fl. 550?), sant

Enw: Cadfan
Rhiant: Eneas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: sant
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Edward Lloyd

Dywed traddodiad ei fod yn fab i Eneas y Llydawr ac iddo groesi o Lydaw i Gymru gyda mynachod eraill, llawer ohonynt o'r un tylwyth ag ef ei hun ac yn amcanu gweithredu fel cenhadon. Cadfan ydyw nawddsant Llangadfan yn Sir Drefaldwyn; ef hefyd a gaiff y clod am ddechrau'r sefydliad mynachaid yn Ynys Enlli. Eithr ei waith pennaf oedd sefydlu'r 'clas' yn Nhywyn, Meirionnydd; yr oedd i'r sefydliad hwn abad mor ddiweddar â 1147, ac yr oedd yno dwr o glerigwyr yn 1291. Cenir am gyfoeth a breiniau'r 'clas' tua'r flwyddyn 1240 gan [Lywelyn Fardd](#) ('Canu i Gadfan'); Tywyn oedd mam-eglwys pob rhan o Feirionnydd-is-Dysynni.

Er cymaint o sôn a fu amdano ac er gwaethaf ei enw presennol nid oes dim cysylltiad rhwng 'Maen Sant Cadfan' a'r sant.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

The Lives of the British Saints, ii, 1-9

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 490

An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire. VI-County of Merioneth (1921), 170-4

Archifau LIGC: [NLW MS 6680B: Llawysgrif Hendregadredd](#), 42-8

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Cadfan](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q581537](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

